COFNOD O'R PENDERFYNIADAU A WNAED MEWN CYFARFOD O'R PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD O BELL – DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD IAU, 16 TACHWEDD 2023 AM 10.00

Presennol

S Cullen - Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| MJ Williams | G Thomas | G Walter |

Aelodau Annibynnol

| | | |
|---|---|---|
| P Baker | R Lynch | S Maughan |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Clarke

Swyddogion

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Rheoliadol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddiaeth Busnes – Gwasanaethau Democrataidd |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cymeradwyo’r Cofnodion |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2023 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Tachwedd 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd |
| Y Penderfyniad Wnaed | Etholodd y Pwyllgor Gadeirydd ac Is-gadeirydd o blith yr Aelodau Annibynnol am dymor i gael ei benderfynu, gan nodi yr adroddir am unrhyw benodiadau wrth y Cyngor llawn er gwybodaeth.<br><br>Penodwyd **S Cullen** yn Gadeirydd ac **S Maughan** yn Is-gadeirydd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Tachwedd 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGGC) 2022/23 |
| Y Penderfyniad Wnaed | Nododd y Pwyllgor y Llythyr Blynyddol ar gyfer 2022/23.<br><br>Trafodwyd nifer o faterion, a nodwyd camau gweithredu, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Bu’r aelodau’n trafod **atgyfeiriadau Cynghorau Tref a Chymuned (TCC)** a gofynnwyd am ddata ar hyn ar gyfer y 5 mlynedd ddiwethaf er mwyn canfod unrhyw dueddiadau.<br>• Gofynnodd yr aelodau am i **restr lawn o'r Cynghorau Tref a Chymuned** gael ei chylchredeg.<br>• Credai’r aelodau y byddai'n fuddiol anfon y rhestr lawn o’r Cynghorau Tref a Chymuned at OGCC fel y câi y dewis o lenwi tabl cwynion TCC yn llawn.<br>• Câi aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ei enwi i greu'r rhestr a'i llenwi â manylion cyswllt Clercod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Tachwedd 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Arsylwi Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned (TCC) a Chyfarfodydd y Cyngor |
| Y Penderfyniad Wnaed | Nododd yr Aelodau'r adroddiad a chymeradwyo'r broses ar gyfer arsylwi cyfarfodydd y Cyngor a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.<br><br>Trafodwyd nifer o faterion, a nodwyd camau gweithredu, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Cytunai'r Aelodau ei fod yn gynnig da.<br>• Roedd ar rai Aelodau eisiau dechrau'r broses arsylwi gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned oedd yn destun y nifer fwyaf o'r cwynion. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'n fuddiol edrych am arfer da hefyd. Byddai'n werthfawr cynnwys rhai yn yr atodlen nad oes unrhyw gwynion yn eu cylch.<br>• Câi rhestr o gyfarfodydd y Cyngor a Chraffu, gan gynnwys rhai dyddiadau Cynghorau Tref a Chymuned, ei chylchredeg i'r Aelodau er mwyn iddynt weld pa rai yr oeddent ar gael i'w harsylwi. Câi cysylltiadau a manylion cyfarfodydd wedyn eu darparu ar gyfer yr Aelodau, yn ôl yr angen.<br>• Câi Aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ei enwi i gysylltu â'r holl Glercod a gofyn am ddyddiadau cyfarfodydd eu Cyngor dros y 6 mis nesaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Tachwedd 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Materion Brys |
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Tachwedd 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |